**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

19 Tachwedd2019

**Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019**

Annwyl Sophie,

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 7 Tachwedd pan oeddem yn craffu ar eich adroddiad blynyddol 2018/19.

Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd y byddem yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r meysydd a drafodwyd. Yn ystod y cyfarfod, soniwyd am y ffaith bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn cynnal adolygiad o'r byrddau partneriaeth amrywiol. A allech chi roi rhagor o fanylion am yr adolygiad ac, os oes gennych ran yn yr adolygiad, beth yw'r rhan honno?

Clywsom hefyd eich bod wrthi'n datblygu dealltwriaeth rhyngoch chi a swyddogion Llywodraeth Cymru am y modd y caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei chymhwyso. A allech chi roi rhagor o fanylion am y trafodaethau a gawsoch â Llywodraeth Cymru ynghylch cymhwyso'r Ddeddf?

Yn ogystal, oherwydd prinder amser, ni chawsom gyfle i'ch holi am nifer o feysydd a byddem yn ddiolchgar pe gallech ymdrin â'r cwestiynau hyn yn ysgrifenedig. Mae'r cwestiynau penodol wedi'u rhestru isod.


- Yn eich barn chi, faint o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth sydd ymhlith y cyhoedd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'ch rôl chi?
- A allwch chi roi enghreifftiau o achosion pan wrthododd yr Arolygiaeth Gynllunio Cymru apêl cynllunio oherwydd nad oedd y cynllun yn gydnaws â'r nodau a'r amcanion llesiant (fel y nodwyd yn eich adroddiad blynyddol)?
- Beth yw'r prif negeseuon sy'n deillio o'r gwaith gydag Ysgol Fusnes Caerdydd mewn perthynas â sgiliau?
- Sut y gellir annog cyrff cyhoeddus i edrych i'r dyfodol wrth ystyried y sgiliau y bydd eu hangen?

- A allwch chi amlinellu’r camau nesaf ar ôl cyhoeddi’r papur gwyn ‘Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol’.
- A allwch chi amlinellu'r gwaith rydych chi wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r gyllideb eleni, a pha newidiadau rydych chi'n disgwyl eu gweld. Beth oedd y prif heriau yn y maes hwn?
- A ydych chi wedi cael ymateb i'r cyngor a roesoch i Lywodraeth Cymru yn dilyn cyllideb y llynedd?
- A allwch chi amlinellu sut y mae’r gwaith o greu 'system gwirio cyllideb' yn datblygu, a sut y caiff ei defnyddio.
- Sut y gellir bwrw ymlaen â’r gwaith o wella prosesau caffael i sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â'r Ddeddf? Pa drafodaethau rydych chi wedi’u cael â Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus eraill ynglŷn â’r mater hwn?

Byddai’n ddefnyddiol i’r Pwyllgor pe gallech ddarparu’r wybodaeth ychwanegol hon erbyn 6 Rhagfyr.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



John Griffiths AC

Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.